

Adroddiad Arolygu Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Adran Radiotherapi, Canolfan Trin
Canser Gogledd Cymru, Ysbyty Glan
Clwyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 28 a 29 Ionawr 2025

Dyddiad cyhoeddi: 01 Mai 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	25
4.	Y camau nesaf.....	29
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	30
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	31
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	33

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) o'r Adran Radiotherapi yng Nghanolfan Trin Canser Gogledd Cymru, Ysbyty Glan Clwyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 28 a 29 Ionawr 2025. Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ystyried y ffordd roedd yr adran yn cydymffurfio â'r Rheoliadau ac yn bodloni'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Uwch-arolygydd Gofal Iechyd AGIC a dau Wyddonydd Diogelu rhag Ymbelydredd Arbenigol o Grŵp Cysylltiadau Meddygol (MEG) Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA), a gyflawnodd swyddogaeth gynghori. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd un holiadur gan glaf, a chwblhawyd 40 o holiaduron gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y staff yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y staff yn gwrtais, gan sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd ardaloedd aros ac ystafelloedd newid unigol ar gael. Roedd y cleifion yn canmol y gofal, yr amgylchedd a'r driniaeth a gafwyd. Roedd y staff yn cynnwys y cleifion wrth wneud penderfyniadau am eu gofal, gan esbonio triniaethau yn drylwyr. Soniwyd am broblemau parcio a thynnwyd sylw at yr angen am well cyfleusterau llety i gleifion a oedd yn teithio pellterau hir.

Roedd gofal amserol yn cael ei ddarparu, ac roedd unrhyw achosion o oedi yn cael eu cyfleu'n effeithiol i'r cleifion. Roedd radiotherapi brys ar gael ar benwythnosau ac yn ystod cyfnodau gwyliau. Roedd gwybodaeth ac arwyddion dwyieithog ar gael, ond dim ond fersiynau Saesneg oedd ar gael o lythyrau apwyntiad. Roedd gwasanaethau cyfieithu ar gael i'r staff os oedd eu hangen. Roedd yr adran yn sicrhau hawliau a chydaddoldeb, roedd lefelau cydymffurfiaeth da â hyfforddiant gorfodol ac roedd hygyrchedd da i bob claf.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Opsiynau parcio ac ystyried anghenion cleifion sy'n teithio pellterau hirach i gael triniaeth
- Llythyrau apwyntiad dwyieithog i'r rhai hynny y mae'n well ganddynt gyfathrebu yn Gymraeg.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Staff caredig a chyfeillgar sy'n barod i helpu
- Amgylchedd croesawgar â digon o le.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, roedd lefelau cydymffurfiaeth da â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Roedd gan y cyflogwr weithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig ar waith fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Roedd y staff a oedd yn bresennol yn ystod yr arolygiad yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o dan y Rheoliadau yn glir. Roedd trefniadau addas ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Parhau i ddiweddarau dogfennaeth a gweithdrefnau er mwyn cydymffurfio â diwygiadau i'r Rheoliadau
- Symleiddio systemau rheoli dogfennau a'r prosesau cysylltiedig
- Archwilio a chofnodi atgyfeiriadau anghyflawn er mwyn sicrhau y caiff themâu eu nodi ac i ymdrin â'r gwersi y mae angen eu dysgu
- Atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer hyfforddi ac asesu cymwyseddau staff meddygol a staff ffiseg feddygol
- Adolygu a diweddarau hawliau gweithredwyr ar gyfer staff meddygol a staff ffiseg feddygol
- Atgyfnerthu'r prosesau archwilio ar gyfer archwiliadau clinigol ac archwiliadau o dan y Rheoliadau
- Cynyddu a gwella'r systemau sydd ar waith i roi gwybod i'r cyflogwr o dan y Rheoliadau am dueddiadau o ran digwyddiadau

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn ymgysylltu mewn ffordd gadarnhaol â'r broses arolygu.
- Roedd y dogfennau a ddarparwyd i AGIC fel rhan o'r arolygiad yn dangos dealltwriaeth dda o ofynion y Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol).
- Gwelwyd tystiolaeth o brosesau cadarn ar gyfer goruchwyllo cofnodion hyfforddi a maes ymarfer radiograffwyr.
- Gwelwyd tystiolaeth o enghreifftiau cadarnhaol o faes ymarfer atgyfeirwyr ac ymarferwyr.
- Roedd amrywiaeth eang o archwiliadau clinigol ac archwiliadau o dan y Rheoliadau yn cael eu cynnal a'u defnyddio i lywio'r broses o ddatblygu'r gwasanaeth, monitro cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau ac ysgogi gwelliannau o ran ansawdd. |

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Yn ystod yr arolygiad, cafwyd adborth cymysg gan y staff. Er bod dros hanner y staff yn argymhell y sefydliad fel gweithle, roedd llawer o'r farn nad oedd digon o staff yn gweithio yn y gwasanaeth. Roedd sylwadau'r staff yn cyfeirio at faterion yn ymwneud â chydabyddiaeth a chymorth gan reolwyr. Roedd y staff yn canmol eu rheolwyr uniongyrchol ond yn teimlo nad oedd yr uwch-reolwyr bob amser yn ymwybodol o'r heriau roeddent yn eu hwynebu.

Nodwyd gennym fod rhai rolau arwain interim a swyddi a oedd wedi bod yn wag ers cryn amser, yr oedd angen recriwtio unigolion parhaol iddynt. Roedd y ffurflen

hunanasesu yn gynhwysfawr, ac roedd y staff yn barod i ymgysylltu'n llawn â'r broses arolygu.

Roedd yr adran yn hyrwyddo cyfleoedd i gasglu adborth gan gleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu'r sefyllfa o ran swyddi arwain interim yn yr adran a datblygu cynllun effeithiol i sicrhau tîm arwain sefydlog ac effeithiol.
- Gwella a chynyddu'r systemau cyfathrebu ar gyfer hysbysu'r cyflogwr o dan y Rheoliadau am ddigwyddiadau
- Atgyfnerthu hyfforddiant lleol yn unol ag Atodlen 3 y Rheoliadau
- Mae'n ofynnol i'r Bwrdd lechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ymdrin â'r sylwadau llai ffafriol gan y staff a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trefniadau gweithio amlddisgyblaethol â chanolfannau canser eraill.
- Dangosodd y tîm rheoli ymrwymiad i ddysgu o ganfyddiadau arolygiad AGIC ac i wella lle bo angen.
- Roedd y tîm o staff yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth da ac roeddent yn canolbwyntio ar y claf.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Gwnaethom siarad â chleifion a oedd wedi dod i'r ganolfan i gael triniaeth. Roedd eu hadborth yn cynnwys ymadroddion fel:

“Ffantastig”

“Gwych”

“I'r dim”

“Llawn gofal”

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Gwelsom fod amrywiaeth o daflenni wedi'u harddangos yn y brif ystafell aros i gleifion a'u gofalwyr. Roedd y rhain yn darparu gwybodaeth ysgrifenedig am y gwahanol fathau o ganser a thriniaethau canser. Roeddent hefyd yn darparu gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael.

Roedd gwybodaeth i gleifion a'u gofalwyr, gan gynnwys beth i'w ddisgwyl pan oeddent yn y ganolfan a manylion am ofal ar ôl triniaethau hefyd. Roedd y taflenni a'r posteri, yn ogystal â gwefan y bwrdd iechyd, hefyd yn cynnwys dolenni i wefannau a manylion cyswllt sefydliadau eraill sy'n cynhyrchu eu taflenni gwybodaeth eu hunain ac a all gynnig help a chymorth i bobl y mae canser yn effeithio arnynt.

Gofal urddasol a pharchus

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod y staff yn gwrtais wrth ymdrin â'r cleifion a'u bod yn gwneud ymdrech i ddiogelu eu preifatrwydd a'u hurddas.

Roedd ardaloedd aros bach ger yr ystafelloedd trin, a oedd yn cynnig mwy o breifatrwydd oddi wrth y brif ystafell aros. Roedd ystafelloedd newid unigol ar gael er mwyn rhoi preifatrwydd i'r cleifion pan oedd angen iddynt newid allan o'u dillad ar gyfer eu triniaeth. Gwelsom hefyd fod drysau'r ystafelloedd lle roedd triniaethau'n cael eu cynnal yn cael eu cau pan fyddent yn cael eu defnyddio.

Gwnaethom siarad â phum claf yn ystod yr arolygiad ac roedd pob un ohonynt yn canmol y gofal, yr amgylchedd a'r driniaeth a gafwyd.

Dywedodd pob aelod o'r staff a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC wrthym fod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal yn yr adran. Roedd yr amgylchedd ffisegol hefyd yn helpu i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd pob aelod o'r staff a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC wrthym fod y cleifion yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal. Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn cytuno.

Cadarnhaodd aelodau o'r staff eu bod yn esbonio'r driniaeth unigol a gwnaethant rannu enghreifftiau penodol lle roeddent wedi rhoi amser i'r cleifion ddeall y prosesau penodol.

Nododd y staff a rhai o'r cleifion fod problemau parcio yn golygu bod llawer o'r cleifion yn newid eu hamseroedd teithio er mwyn rhoi digon o amser i ddod o hyd i le parcio.

Dywedwyd wrthym fod llawer o'r cleifion yn teithio gryn bellter i ddod i'w hapwyntiadau radiotherapi, a chadarnhaodd y staff fod trefnu llety dros nos i'r cleifion hyn yn heriol. Roedd trafnidiaeth ar gael, ond roedd y staff yn cydnabod y byddai teithio yn ôl ac ymlaen i'r adran ac oddi yno o bosibl yn atal cleifion rhag mynychu apwyntiadau radiotherapi.

Dylai'r cyflogwr adolygu a gwella'r prosesau sydd ar waith er mwyn sicrhau y caiff anghenion cleifion sy'n teithio ar gyfer apwyntiadau radiotherapi rheolaidd eu diwallu.

Amserol

Gofal amserol

Dywedodd y staff wrthym y rhoddir gwybod i'r cleifion am oedi annisgwyl ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai'r cleifion yn cael gwybod ar lafar gan staff y dderbynfa. Gwelsom hefyd fod sgriniau mawr yn y ddwy ardal aros yn cael eu defnyddio i roi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi. Cafodd y cleifion a welsom yn ystod yr arolygiad eu trin yn brydlon.

Disgrifiodd y staff drefniadau addas ar gyfer darparu triniaethau radiotherapi brys ar alw yn ystod penwythnosau a gwyliau cyhoeddus.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod arwyddion dwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg, wedi'u harddangos yn yr adran. Roedd symbolau wedi'u harddangos hefyd er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion y gallent sgwrsio yn Gymraeg â'r staff. Gwelsom fod rhai aelodau o'r staff yn gwisgo laniardau er mwyn dangos i'r cleifion eu bod yn siarad Cymraeg. Clywsom staff yn siarad yn Gymraeg â chleifion drwy gydol ein harolygiad.

Roedd y taflenni gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion a oedd ar gael yn yr adran ar gael yn ddwyieithog. Dim ond yn Saesneg roedd llythyrau apwyntiad i gleifion ar gael.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd lechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau y gall cleifion gael llythyrau yn eu dewis iaith.

Roedd posteri wedi'u harddangos yn rhoi gwybod i gleifion sy'n feichiog, neu a allai fod yn feichiog, y dylent hysbysu'r staff cyn cael triniaeth.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw bod gwasanaeth cyfieithu ar gael iddynt, pe bai angen, er mwyn helpu i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg yw eu mamiaith.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom fod hawliau cleifion yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo yn yr adran. Cawsom wybod bod hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan o raglen hyfforddiant gorfodol y Bwrdd lechyd i'r staff. Dangosodd data a ddarparwyd i AGIC gydymffurfiaeth dda gan y staff â hyfforddiant o'r fath.

Esboniodd y staff y trefniadau a oedd ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn hygyrch i bawb, fel mynediad i gadeiriau olwyn. Roedd yr adran yn hygyrch ac yn cynnwys drysau llydan, coridorau clir ac ystafelloedd trin mawr.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 (fel y'u diwygiwyd)¹

Dyletswyddau'r Cyflogwr: sefydlu gweithdrefnau, protocolau a rhaglenni sicrhau ansawdd cyffredinol

Gweithdrefnau a phrotocolau

Roedd y cyflogwr wedi llunio gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017.

Gwnaethom edrych ar yr holl ddogfennaeth mewn perthynas â Rheoliadau 2017 a gyflwynwyd cyn yr arolygiad a siarad â deiliaid dyletswydd ac uwch-reolwyr i gadarnhau eu bod yn deall y prosesau a'r arferion. Roedd y dogfennau a ddarparwyd yn dangos dealltwriaeth dda o Reoliadau 2017. Fodd bynnag, rhaid i'r cyflogwr fireinio'r dogfennau hyn ymhellach yn seiliedig ar yr adborth penodol a roddwyd yn ystod yr arolygiad ac yn unol â diwygiadau a wnaed i Reoliadau 2017.

Roedd dogfennaeth, gan gynnwys Gweithdrefnau'r Cyflogwr a dogfennaeth arall a oedd yn gysylltiedig â'r Rheoliadau, yn cael ei rheoli yn yr adran drwy yriant a rennir, ac roedd prosesau llawlyfr ar gael ar gyfer adolygu a diweddarau dogfennaeth a chyfleu unrhyw newidiadau a wnaed. Dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym eu bod wedi cael anawsterau wrth ddefnyddio'r gyriant hwn. Gwnaethom nodi enghraifft o heriau cysylltiedig wrth i ni edrych ar gofnodion hyfforddiant y radiograffwyr. Roedd cymwyseddau delweddu CT Pelydr Côn wedi cael eu rhyddhau i'r staff heb broses briodol, ac roeddent ar gael heb drefniadau priodol ar gyfer rheoli dogfennau.

Ar y cyfan, roedd y polisiau a gweithdrefnau ar waith, ond nodwyd y canlynol:

- Roeddent yn dibynnu ar brosesau dynol i adolygu a diweddarau dogfennaeth ac i gyfleu unrhyw newidiadau a wnaed
- Nid oedd dull rheoli dogfennau ffurfiol ar waith i reoli dogfennaeth a symleiddio prosesau
- Nid oedd pob un ohonynt wedi cael eu diweddarau i gydymffurfio â'r diwygiadau i'r Rheoliadau
- Roeddent yn cynnwys gwybodaeth ddyblyg â manylion anghyson mewn rhai achosion.

¹ Fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (Diwygio) 2018 a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (Diwygio) 2024

Dylai'r cyflogwr sicrhau y caiff y system rheoli dogfennaeth bresennol ei hadolygu a'i hatgyfnerthu. Dylid achub ar y cyfle i wella hygyrchedd, lleihau achosion o ddyblygu gwybodaeth ar draws dogfennau, gwaredu prosesau cynnal a monitro dynol sy'n dibynnu ar aelodau allweddol o'r staff. Dylid ystyried cyllido a chefnogi system rheoli dogfennau electronig addas.

Rhaid i'r cyflogwr symleiddio'r system rheoli dogfennau bresennol a'r prosesau gweithredol cysylltiedig er mwyn atgyfnerthu'r broses o reoli dogfennau.

Dangosodd yr hunanasesiad, yr adborth gan y staff a'r arolygiad ar y safle fod yr adran yn defnyddio cryn dipyn o bapur, a bod llawer o'r tasgau a oedd yn cael eu cwblhau fel rhan o lwybr cleifion yn cael eu cofnodi ar bapur ac ar ffurf electronig. Roedd hyn yn dyblygu ymdrechion ac yn creu amwysedd o ran data ffynhonnell sylfaenol fel rhan o gofnod y claf. Roedd cofnodion rhai o'r cleifion a welsom yn cynnwys diwygiadau a gwelliannau nad oeddent bob amser wedi'u llofnodi a'u dyddio.

Rhaid i'r cyflogwr adolygu a diweddarau prosesau a sicrhau y caiff cofnodion cleifion a gwybodaeth a diwygiadau i'w llwybr gofal eu llofnodi a'u dyddio a'u bod yn glir.

Tynnodd trafodaethau yn ystod yr arolygiad sylw at gyfleoedd i symleiddio cofnodion cleifion drwy fanteisio i'r eithaf ar ddiweddariadau a wnaed i feddalwedd y system rheoli oncoleg, y system cynllunio triniaeth a'r datrysiad delweddu meddalwedd yn ddiweddar. Byddai angen cwmpasu a chynllunio'r gwaith hwn gan bennu terfynau amser fesul cam pendant a seilwaith ategol priodol (e.e. monitorau ychwanegol, neu drwyddedau, amser staff). Byddai hyn yn atgyfnerthu prosesau ac yn sicrhau bod y systemau sydd ar gael yn lleol yn cael eu defnyddio'n well.

Canllawiau atgyfeirio

Roedd y cyflogwr wedi llunio canllawiau atgyfeirio a disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer sicrhau bod y canllawiau hyn ar gael i unigolion sydd wedi cael hawliau fel atgyfeirwyr.

Roedd trefniadau ar waith i wasanaethau bracitherapi gael eu darparu gan gyflogwr arall (Cyflogwr B). Mae'r cyflogwr arall wedi neilltuo hawliau i atgyfeiriwr yng Nghanolfan Trin Canser Gogledd Cymru, sy'n cyflwyno atgyfeiriadau ar gyfer triniaeth bracitherapi, a chaiff yr holl dasgau eraill o dan y Rheoliadau eu cyflawni gan Gyflogwr B. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn cadarnhau fod y trefniant hwn yn cael ei reoli o dan gontract rhwng y ddau ddarparwr gofal iechyd. Daeth y ddogfennaeth gontract a welsom i ben yn 2020 ac mae angen ei diweddarau. Rhaid

i'r cyflogwr hefyd sicrhau y caiff y ddogfennaeth gyfatebol ar gyfer bracitherapi ar gyfer yr adran canser gynaeolegol ei hadolygu a'i diweddarau i adlewyrchu'r gofyniad i rannu gwybodaeth am ddosau radiotherapi a bracitherapi priodol ac i sicrhau bod y wybodaeth honno ar gael i Ganolfan Trin Canser Gogledd Cymru a Chyflogwr B. Dylid hefyd rhannu protocolau clinigol rhwng safleoedd er mwyn sicrhau bod y ddau wasanaeth yn gydnaws ac yn adlewyrchu ei gilydd.

Rhaid i'r cyflogwr adolygu a diweddarau'r contract a'r ddogfennaeth gyfatebol am driniaethau i adlewyrchu'r gofyniad i rannu gwybodaeth am ddosau radiotherapi a bracitherapi priodol ac i sicrhau bod y wybodaeth honno ar gael rhwng cyflogwyr. Dylid hefyd rhannu protocolau clinigol rhwng safleoedd er mwyn sicrhau bod y ddau wasanaeth yn gydnaws ac yn adlewyrchu ei gilydd.

Nododd yr adolygiad o gofnodion y cleifion yn ystod yr arolygiad, yr archwiliad diweddar o brosesau atgyfeirio o dan y Rheoliadau (2023) a thrafodaethau â'r staff y risgiau canlynol:

- Dynodyddion cleifion yn cael eu darparu mewn modd anghyson
- Atgyfeiriadau anghyflawn â gwybodaeth orfodol fel statws beichiogrwydd ar goll
- Y defnydd o rifau ysbyty gwahanol (gan adlewyrchu systemau'r tri ysbyty sy'n atgyfeirio)
- Oedi wrth atgyfeirio gan fod proses ddynol o anfon atgyfeiriad ar bapur o'r clinigau allanol.

Dylai'r cyflogwr ystyried mabwysiadu system atgyfeirio electronig gan gynnwys meysydd gorfodol a manylion mewngofnodi penodol i ddefnyddwyr er mwyn lliniaru'r risgiau a nodwyd.

Yn y cyfamser, argymhellir y dylid cynnwys atgyfeiriadau anghyflawn yn y system leol ar gyfer dysgu o ddigwyddiadau, er mwyn monitro tueddiadau a helpu i nodi camau gwella.

Lefelau cyfeirio dosau ar gyfer cysylltiadau lleoli neu wirio nodweddiadol
Mae'n gadarnhaol nodi bod lefelau cyfeirio dosau wedi cael eu datblygu ar gyfer sganau cynllunio Tomograffi Gyfrifiadurol (CT) safonol, a'u bod ar gael i weithredwyr drwy weithdrefnau lleol. Mae'r lefelau cyfeirio dosau lleol ar gyfer sganau CT cynllunio radiotherapi o fewn y lefelau cyfeirio dosau cenedlaethol. Gwelwyd tystiolaeth fod archwiliadau DLP CT rheolaidd yn cael eu cynnal ar y safle.

Roedd dosau delweddu gwirio nodweddiadol ar gael yn y dogfennau a rannwyd. Ni welwyd tystiolaeth o archwiliadau dosau lleol ar gyfer cysylltiadau gwirio.

Mae'n gadarnhaol nodi bod Gweithdrefn Lefelau Cyfeirio Dosau wedi cael ei datblygu'n unol â gofynion Rheoliadau Diwygio 2024.

Ymchwil feddygol

Dywedwyd wrthym fod yr adran yn cymryd rhan mewn ymchwil sy'n ymwneud â chysylltiadau meddygol. Roedd y trefniadau ar gyfer hyn wedi'u nodi mewn dogfen drosfwaol.

Roedd y ffurflen hunanasesu wedi'i chwblhau yn disgrifio trefniadau llywodraethu addas ar gyfer treialon ymchwil, y broses ar gyfer rheoli cysylltiadau ymchwil a'r mesurau sydd ar waith i sicrhau y cedwir at gyfyngiadau dosau.

Hawliau

Roedd gweithdrefn ysgrifenedig addas ar waith gan y cyflogwr i nodi unigolion sydd â hawl i fod yn atgyfeiriwr, yn ymarferydd neu'n weithredwr o fewn maes ymarfer penodedig. Roedd yn nodi'n glir fod y dasg o roi hawliau wedi'i dirprwyo o'r Prif Weithredwr i'r Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Proffesiynau Perthynol i lechyd a Gwyddorau lechyd er mwyn cydgysylltu gweithgareddau'r Bwrdd lechyd mewn perthynas ag ymbelydredd.

Y Cyfarwyddwr Gweithredol hwn sy'n meddu ar y cyfrifoldeb cyffredinol dros benderfynu pwy sy'n gallu gweithredu fel deiliaid dyletswydd o dan y Rheoliadau. Roedd Polisi Ymbelydredd Ïoneiddio (RP01) y Bwrdd lechyd yn disgrifio sut y caiff y dasg ei dirprwyo i lawr i'r gwasanaethau.

Mae'r Cyfarwyddwr Clinigol a Phenaethiaid Gwasanaeth yn rhoi hawl i aelodau'r staff weithredu fel deiliaid dyletswydd yn unol â gweithdrefnau lleol. Roedd dogfennaeth rhoi hawliau, gan gynnwys cwmpasau ymarfer cyfatebol, yn cael ei hadolygu ar gyfer rôl pob deiliad dyletswydd ar y safle. Gwelsom dystiolaeth o enghreifftiau cadarnhaol o faes ymarfer atgyfeirwyr ac ymarferwyr a oedd yn amlinellu 'lefel' yr hawl a safle'r tiwmor a oedd yn gysylltiedig â hawliau unigol ac a oedd wedi'u dyddio a'u cymeradwyo. Gwelwyd dystiolaeth o brosesau cadarn ar gyfer goruchwyllo maes ymarfer gweithredwyr radiograffwyr hefyd. Mae angen atgyfnerthu'r cofnodion rhoi hawliau ar gyfer rôl deiliad dyletswydd y gweithredwr ar gyfer staff meddygol a staff ffiseg feddygol.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer asesu hyfforddiant a chymwyseddau deiliaid dyletswydd yn ystod yr arolygiad. Nodwyd gennym fod angen atgyfnerthu'r ddogfennaeth a oedd yn dangos dystiolaeth o hyfforddiant a chymhwysedd y staff meddygol a'r staff ffiseg feddygol hefyd.

Rhaid i'r cyflogwr

- Atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer hyfforddi ac asesu cymwyseddau staff meddygol a staff ffiseg feddygol
- Atgyfnerthu'r broses o gofnodi addysg a hyfforddiant parhaus ar ôl cymhwyso
- Adolygu a diweddarau hawliau gweithredwyr ar gyfer staff meddygol ac ar gyfer yr holl grwpiau staff ym maes ffiseg feddygol.

Adnabod cleifion

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig gyfredol ar waith i'r staff ei dilyn er mwyn adnabod cleifion yn gywir cyn iddynt ddod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio. Nod y weithdrefn hon oedd sicrhau bod y claf cywir yn cael y cysylltiad cywir. Roedd y weithdrefn yn nodi ei bod yn ofynnol i'r staff ofyn i'r claf am ei enw, ei ddyddiad geni a'i gyfeiriad er mwyn cadarnhau ei fanylion adnabod ac y dylid cymharu'r manylion hyn yn erbyn y data ffynhonnell sylfaenol.

Roedd y manylion yn y weithdrefn hefyd yn amlinellu'r camau roedd angen eu cymryd i adnabod gwahanol fathau o gleifion gan gynnwys unigolion nad oes ganddynt alluedd o bosibl, unigolion â nam ar y synhwyrâu ac unigolion sy'n siarad iaith wahanol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'n glir y camau yr oeddent yn eu cymryd fel mater o drefn i adnabod cleifion yn gywir cyn cynnal archwiliadau yn yr adran.

Cadarnhaodd y weithdrefn ysgrifenedig a sgysiau â'r staff fod bob amser o leiaf ddau weithredwr yn gysylltiedig â'r cysylltiad, a bod yn rhaid i'r ddau glywed ymateb gweithredol gan y claf, bod yn rhaid iddynt allu gweld y data ffynhonnell sylfaenol er mwyn cadarnhau'r manylion adnabod a bod yn rhaid iddynt lofnodi'r cerdyn triniaeth er mwyn nodi eu bod yn gyfrifol ar y cyd am adnabod y claf.

Cadarnhaodd eglurhad pellach gan reolwyr fod y ffaith bod dau weithredwr yn gysylltiedig â'r cysylltiad yn dyblygu'r dasg o adnabod y claf. Cyflwynwyd y broses hon yn dilyn digwyddiad ymbelydredd lle defnyddiwyd manylion y claf anghywir sawl blwyddyn yn ôl.

Yn dilyn trafodaethau am effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr ail wiriad, cytunodd yr adran y byddai'n adolygu'r broses ar gyfer adnabod cleifion.

Unigolion o oedran beichiogi (holi am feichiogrwydd)

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith ar gyfer holi unigolion o oedran beichiogi er mwyn canfod a yw'r unigolyn yn feichiog, neu o bosibl yn feichiog, neu'n bwydo ar y fron.

Cadarnhaodd y ffurflen hunanasesu yn achos pob cysylltiad cynllunio radiotherapi a phob cysylltiad trin cyntaf, fod y staff yn gofyn i unigolion o oedran beichiogi, rhwng 12 a 55 oed (gan gynnwys yr oedrannau hynny), a oes unrhyw siawns y gallent fod yn feichiog. Roeddent hefyd yn gofyn iddynt lofnodi datganiad yn nodi eu bod yn deall na ddylent feichiogi yn ystod eu triniaeth. Roedd y sampl o ddogfennaeth atgyfeirio a thriniaeth a welsom yn dangos bod gweithredwyr wedi holi ynghylch statws beichiogrwydd unigolion yn unol â gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr.

Gallai'r staff y gwnaethom siarad â nhw ddisgrifio'r camau y byddent yn eu cymryd er mwyn holi am statws beichiogrwydd unigolion. Roedd hyn yn gyson â gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr.

Dylai'r cyflogwr adolygu a diweddarau'r weithdrefn ar gyfer holi ynghylch statws beichiogrwydd er mwyn cynnwys y camau gweithredu i'w cymryd pan fydd unigolyn wedi cadarnhau ei bod yn feichiog ac y caiff y cysylltiad ei gyfiawnhau yn dilyn hynny.

Manteision a risgiau

Disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer rhoi gwybodaeth ddigonol i gleifion am fanteision cael y cysylltiad a'r risgiau sy'n gysylltiedig â dos ymbelydredd. Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael y wybodaeth hon yn ystod trafodaethau fel rhan o'r broses cydsynio i driniaeth.

Roedd taflenni gwybodaeth ysgrifenedig hefyd yn cael eu rhoi i'r cleifion i helpu i gefnogi'r trafodaethau hyn, ac roedd copi o'r ffurflen gydsynio ysgrifenedig ar gael i'r cleifion hefyd. Roedd taflenni gwybodaeth ysgrifenedig ar gael yn yr ystafelloedd aros yn ystod yr arolygiad.

Gwerthusiadau clinigol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ar waith a oedd yn nodi'r trefniadau ar gyfer cynnal gwerthusiad clinigol o gysylltiadau meddygol yn yr adran, gan gynnwys cysylltiad ar y camau cynllunio, gwirio a thrin. Roedd y weithdrefn yn esbonio bod yn rhaid i gysylltiadau a gwblheir ar bob cam o lwybr y claf gael eu gwerthuso gan ddeiliaid dyletswydd hyfforddedig, ac yn disgrifio sut y caiff tystiolaeth o hyn ei chofnodi.

Roedd y weithdrefn gwerthusiadau clinigol a welsom yn cynnwys rhywfaint o derminoleg amwys fel *“images that are surplus to requirement”*. Yn ystod yr arolygiad, cytunodd y staff i fireinio'r iaith hon.

Dylai'r cyflogwr adolygu a diweddarau dogfennaeth yr adran sy'n cyfeirio at werthusiadau clinigol er mwyn dileu terminoleg amwys.

Cysylltiadau delweddu anfeddygol

Roedd dogfennaeth y cyflogwr o dan y Rheoliadau yn nodi'n glir nad oedd cysylltiadau delweddu anfeddygol yn cael eu cyflawni yn yr adran radiotherapi.

Dyletswyddau'r cyflogwr: archwiliadau clinigol

Cawsom amrywiaeth o enghreifftiau o archwiliadau clinigol ac archwiliadau o dan y Rheoliadau a gynhaliwyd yn yr adran. Roedd yr archwiliadau hyn yn cynnwys archwiliad o dan y Rheoliadau a oedd yn ymwneud â holi ynghylch beichiogrwydd, archwiliad o'r broses atgyfeirio ac archwiliad o'r broses rhoi hawliau. Roedd yn gadarnhaol nodi bod Gweithdrefn Archwiliadau Clinigol wedi cael ei datblygu'n unol â gofynion Rheoliadau Diwygio 2024. Dangosodd trafodaethau â'r staff ar y safle fod canlyniadau archwiliadau yn ael eu defnyddio'n lleol i lywio'r broses o ddatblygu'r gwasanaeth a'i gwerthuso, monitro cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau ac ysgogi gwelliannau o ran ansawdd. Dylid ystyried atgyfnerthu prosesau archwilio drwy safoni'r ddogfennaeth archwilio ar draws disgyblaethau, gan gynnwys tystiolaeth o gamau gweithredu priodol a gaiff eu cymryd mewn ymateb i ganfyddiadau archwiliadau, fel cynlluniau gweithredu.

Dylai'r cyflogwr ystyried atgyfnerthu'r broses ar gyfer archwiliadau clinigol ac archwiliadau o dan y Rheoliadau drwy ymdrin â'r meysydd canlynol i'w gwella:

- Rhoi rhaglen flynyddol o archwiliadau clinigol amlddisgyblaethol ar waith
- Defnyddio dogfennaeth archwilio safonol mewn ffordd gyson
- Nodi meysydd i'w gwella yn glir
- Datblygu cynllun gweithredu cyfatebol lle bo angen
- Cyfleu'r canlyniadau a chynnal archwiliad arall lle bo angen
- Adolygu a diweddarau'r weithdrefn archwiliadau clinigol i adlewyrchu newidiadau i'r broses.

Dyletswyddau'r cyflogwr: cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith ar gyfer adrodd ar gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol arwyddocaol yn ymwneud ag ymbelydredd, eu cofnodi, ymchwilio iddynt a'u dadansoddi. Roedd y weithdrefn hon yn disgrifio rolau a chyfrifoldebau unigolion yn glir ynghyd â'r trothwyon a oedd yn nodi pan oedd angen adrodd ar ddigwyddiadau o'r fath. Roedd y trefniadau ar gyfer rhoi gwybod i'r atgyfeiriwr, yr ymarferydd a'r claf wedi'u disgrifio'n dda yn y weithdrefn ysgrifenedig hefyd.

Gwnaethom edrych ar gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol diweddar ac roedd yn gadarnhaol nodi'r dull cydweithredol amlddisgyblaethol a oedd ar waith i adolygu cysylltiadau o'r fath a'r gwersi a ddysgwyd a roddwyd ar waith yn sgil hynny.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod prosesau ar gyfer cynnal adolygiadau gan gymheiriaid ar waith ar draws sawl safle trin (er enghraifft, niwroleg, y pen a'r gwddf a'r colon a'r rhefr), a bod cynlluniau ar y gweill i gynnal mwy ohonynt. Mae hefyd yn gadarnhaol nodi bod trefniadau cydweithio ar waith ar draws safleoedd er mwyn hwyluso'r broses ar gyfer cynnal adolygiadau gan gymheiriaid. Ar ôl trafod cysylltiad damweiniol neu anfwriadol arwyddocaol diweddar y rhoddwyd gwybod i AGIC amdano, daethpwyd i'r casgliad y byddai'r trefniadau i gynnal mwy o adolygiadau gan gymheiriaid ar draws pob safle yn helpu i liniaru'r risg o unrhyw wallau amlinellu yn y dyfodol.

Ar ôl edrych ar y ddogfennaeth ar gyfer cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol, nodwyd dau faes i'w gwella. Rhaid i'r cyflogwr ddiweddarau ei gamau gweithredu gan lunio cynllun i sicrhau'r canlynol:

- **Caiff trefniadau ar gyfer adolygiadau gan gymheiriaid eu rhoi ar waith ar draws pob safle**
- **Caiff y meini prawf atgyfeirio yn y protocolau clinigol eu hehangu i gynnwys ymchwiliadau hanfodol e.e. adroddiad histoleg, archwiliad corfforol a delweddu diagnostig (delweddu ac adroddiadau).**

Ar ôl edrych ar y wybodaeth yn y Ffurflen Hunanasesu a'r dystiolaeth ategol gyfatebol, nid oedd yn glir pwy sy'n rhoi gwybod i'r claf neu ei gynrychiolydd pan fydd cysylltiad damweiniol neu anfwriadol sy'n arwyddocaol o safbwynt clinigol wedi digwydd. Cadarnhaodd trafodaethau dilynol â'r staff mai'r oncolegydd cyfrifol sy'n ymgymryd â'r dasg hon. **Dylid ychwanegu'r manylion hyn at y weithdrefn gyfatebol.**

Dyletswyddau'r ymarferydd, y gweithredwr a'r atgyfeiriwr

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau fel deiliaid dyletswydd o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 yn dda.

Cyfiawnhad dros gysylltiadau unigol

Disgrifiwyd trefniadau ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi pob cysylltiad a gyflawnir yn ystod camau cynllunio ac ailgynllunio, gwirio a thrin llwybr gofal y claf mewn perthynas â radiotherapi. Er bod gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig lleol ar waith sy'n disgrifio'r broses ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi pob cysylltiad, nodwyd rhywfaint o amwysedd ac anghysondebau yn y ddogfennaeth ategol.

Dylid adolygu'r ddogfennaeth sy'n nodi manylion y broses ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi cysylltiadau delweddu gwirio cydredol er mwyn sicrhau bod y broses hon yn cael ei disgrifio mewn ffordd glir a chyson.

Optimeiddio

Roedd gan y cyflogwr drefniadau ar waith i optimeiddio cysylltiadau gan gynnwys cysylltiadau ar y camau cynllunio, gwirio a thrin. Nod y trefniadau hyn oedd sicrhau bod y dosau o ymbelydredd a roddir i gleifion o ganlyniad i gysylltiadau mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.

Roedd protocolau cynllunio tomograffeg gyfrifiadurol (CT) yn cael eu hoptimeiddio a'u harchwilio ac roedd lefelau cyfeirio dosau lleol yn cael eu rhoi ar waith yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. Roedd prosesau delweddu gwirio yn benodol i'r safle ac wedi'u disgrifio mewn protocolau clinigol. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod triniaethau yn cael eu cynllunio a'u gwirio fesul achos unigol er mwyn sicrhau bod y dechneg, y peiriant a'r trefniant pelydrau gorau yn cael eu dewis ar gyfer y driniaeth, er mwyn lleihau'r dosau cysylltiad cymaint â phosibl ond gan sicrhau bod yr ardal darged gyfan yn cael ei thrin.

Fel rhan o'r broses cynllunio triniaeth ar gyfer radiotherapi, rhaid i unrhyw rai o organau perthnasol y cleifion y mae risg y byddant yn dod i gysylltiad â'r ymbelydredd gael eu diffinio. Yn ystod y trafodaethau â'r staff, roeddent yn deall yn glir mai cyfrifoldeb y gweithredwr oedd hyn, ac roedd staff cynllunio a staff oncoleg glinigol yn cael eu hyfforddi i gyflawni'r swyddogaeth hon. Roedd y strwythurau hyn yn cael eu hadolygu ar adeg cymeradwyo'r cynllun a'r staff oncoleg glinigol oedd yn gyfrifol am y dasg hon.

Trafodwyd y broses o ffurfioli a datblygu'r trefniadau ar gyfer optimeiddio dosau Tomograffi Gyfrifiadurol Pelydr Côn â'r Arbenigwyr Ffiseg Feddygol yn ystod yr arolygiad. Cawsom wybod am drefniadau cydweithio rhwng Canolfan Trin Canser Gogledd Cymru a Chyflogwr B ar gyfer optimeiddio dosau delweddu gwirio Tomograffi Gyfrifiadurol Pelydr Côn (CBCT). Roedd y gwaith hwn yn mynd rhagddo a byddai'n disodli'r gosodiadau diodyn sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn yr adran glinigol.

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddatblygu'r trefniadau ar gyfer optimeiddio dosau delweddu gwirio CBCT.

Pediatreg

Cadarnhaodd y ddogfennaeth a welwyd a'r sgysiau a gafwyd â'r uwch-reolwyr nad oedd Canolfan Trin Canser Gogledd Cymru yn trin plant.

Gofalwyr neu gysurwyr

Cadarnhaodd y ffurflen hunanasesu na chaniateir i ofalwyr a chysurwyr aros gyda chleifion yn ystod unrhyw gysylltiad meddygol. Gwelwyd copi o ddogfennaeth leol o dan y Rheoliadau, "*Guidance for the exposure of carers and comforters*" a oedd yn cadarnhau hyn.

Cyngor arbenigol

Roedd tri Arbenigwr Ffiseg Feddygol wedi'u penodi i roi cyngor a chymorth arbenigol i'r adran ac roedd pedwerydd unigolyn wedi cyflwyno portffolio i'r corff ardystio Arbenigwyr Ffiseg Feddygol ac roedd yn aros am ei ganlyniad. Dywedwyd wrthym fod Arbenigwyr Ffiseg Feddygol yn rhoi cymorth a chyngor ac yn goruchwyllo mewn nifer o feysydd yn yr adran. Ymhlith y meysydd cymorth roedd darparu hyfforddiant i'r staff, profi a sicrhau ansawdd cyfarpar, gwerthuso dosau cysylltiad, cynnal archwiliadau ac ymchwilio i gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol. Cadarnhaodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw y gallent gysylltu ag Arbenigwr Ffiseg Feddygol i gael cyngor a chymorth lle bo angen, ar sail ad hoc.

Cyfarpar: dyletswyddau cyffredinol y cyflogwr

Gwnaethom edrych ar gofnodlyfr y cyfarpar y mae'r Rheoliadau yn berthnasol iddo a gwelsom fod rhywfaint o'r cyfarpar yn yr adran yn hen. Roedd hyn yn cynnwys dau Gyflymydd Llinol Trilogy 14 oed, nad yw un ohonynt yn cael ei ddefnyddio at ddibenion clinigol, ond y mae'r llall yn cael ei ddefnyddio o hyd at ddibenion clinigol. Mae angen adolygu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r hen gyfarpar yn yr adran a defnyddio'r canlyniadau i lywio'r cofnod presennol ar y gofrestr risgiau. Byddai'n gadarnhaol pennu terfynau amser clir ar gyfer cyfarpar newydd.

Dylai'r cyflogwr gynnal asesiad risg ar gyfer y Cyflymydd Llinol (a osodwyd yn 2010), a defnyddio'r asesiad risg hwn i lywio'r cofnod presennol ar y gofrestr risgiau. Rhaid cytuno ar feini prawf perfformiad derbyniol a therfynau amser pendant ar gyfer parhau i ddefnyddio'r cyfarpar at ddibenion clinigol a'u cofnodi.

Wrth edrych ar y ffurflen hunanasesu, nodwyd gennym fod taenlen fewnol yn cael ei defnyddio i gynnal cyfrifiadau â llaw ar gyfer triniaethau wedi'u cynllunio drwy efelychiadau rhithwir. Fel rhan o'r broses o gadarnhau'r unedau monitro, roedd yr un cyfrifiad yn cael ei ddefnyddio yn lle methodoleg cwbl annibynnol. Trafodwyd y risgiau sy'n gysylltiedig â thaenlen fewnol ac awgrymodd y staff y dylid mabwysiadu meddalwedd cyfrifo gwiriadau dosau a oedd ar gael yn lleol.

Dylai'r cyflogwr sicrhau y caiff y prosesau presennol ar gyfer cynllunio triniaethau syml neu liniarol a thriniaethau 'FSD estynedig' eu hadolygu a'u hatgyfnerthu.

Diogel

Rheoli risg

Gwnaeth yr uwch-reolwyr y gwnaethom siarad â nhw ddisgrifio'r asesiadau a'r trefniadau rheoli risg a oedd ar waith yn yr adran. Dywedwyd wrthym hefyd fod yr holl ddogfennau perthnasol ar gael i'r staff.

Dyweddodd pob un ond dau o'r aelodau o staff a atebodd holiadur AGIC i staff fod eu sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am wallau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau ac roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod staff sy'n gysylltiedig â gwall yn cael eu trin yn deg. Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd y byddent yn teimlo'n ddiogel wrth godi pryderon am ymarfer clinigol anniogel ond dywedodd llai na hanner eu bod yn hyderus y byddai'r sefydliad yn ymdrin â'u pryderon (18/40). Roedd y dystiolaeth a welsom yn ystod yr arolygiad yn dangos nad oedd aelodau o staff yn cael eu cynnwys fel mater o drefn wrth ymchwilio i ddigwyddiadau ac nad oedd adborth bob amser yn cael ei roi i esbonio pam y gallai fod angen rhoi gwybod i sefydliad allanol am ddigwyddiad neu i gyflew'r camau gweithredu dilynol a gymerwyd.

Dylai'r cyflogwr fyfyrrio a gweithredu ar y sylwadau a gafwyd ynghylch rhoi gwybod am wallau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a digwyddiadau a'r camau gweithredu dilynol gofynnol.

Dylid adolygu prosesau a'u hatgyfnerthu er mwyn sicrhau y caiff aelodau o staff eu cynnwys yn yr ymchwiliad, ac y cânt adborth priodol i esbonio pam bod sefydliad allanol wedi cael gwybod am y digwyddiad yn ogystal â'r camau gweithredu dilynol a gymerwyd.

Roedd astudiaeth risg yr adran yn gryno, yn hawdd i'w deall ac wedi'i llywio gan ddadansoddiad o ddigwyddiadau yn ogystal ag asesiadau sylfaenol. Gellid ei gwella drwy gynnwys cynllun gweithredu i fonitro camau gweithredu a chofnodi cynnydd.

Dylai'r cyflogwr gynnwys cynllun gweithredu fel rhan o astudiaeth risg yr adran er mwyn monitro a chofnodi cynnydd y camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r astudiaeth.

Yn ystod yr arolygiad, nodwyd bod y cyfarfodydd dadansoddi digwyddiadau amlddisgyblaethol a oedd yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn wedi dirwyn i ben.

Dylai'r cyflogwr ailddechrau cynnal cyfarfodydd dadansoddi digwyddiadau amlddisgyblaethol rheolaidd. Dylai'r cyfarfodydd hyn gael eu hategu gan adroddiad dadansoddi digwyddiadau, a chynllun gweithredu dilynol i gofnodi a monitro'r camau gweithredu a nodwyd i ymdrin â'r meysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd pob rhan o'r adran a welsom yn lân ac yn daclus yr olwg ac roedd y cyfarpar a welsom hefyd yn lân.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd y cwestiynau yn holiadur AGIC wrthym fod polisi rheoli heintiau effeithiol ar waith yn eu sefydliad a gwnaethant gadarnhau bod amserlen lanhau effeithiol ar waith. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant atal a rheoli heintiau yn rhan o'r hyfforddiant gorfodol i staff. Dangosodd data a ddarparwyd i AGIC gydymffurfiaeth dda iawn gan y staff â'r hyfforddiant hwn.

Diogelu plant a diogelu oedolion

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o bolisiau a gweithdrefnau diogelu'r Bwrdd lechyd a ble i gael gfael arnynt. Roedd y staff hefyd yn gallu disgrifio'r camau y byddent yn eu cymryd pe bai ganddynt bryder diogelu.

Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant diogelu yn rhan o'r rhaglen hyfforddiant gorfodol i staff. Dangosodd data a ddarparwyd i AGIC gydymffurfiaeth dda gan y staff â'r hyfforddiant hwn.

Effeithiol

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar bedwar cofnod atgyfeirio a thrin. Mae'r holl ddogfennaeth atgyfeirio ar ffurf papur ar hyn o bryd. Roedd y rhan fwyaf o'r cofnodion yn dangos tystiolaeth bod y staff yn dilyn gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr, ond yn achos un cofnod:

- Nid oedd tri dynodydd claf unigryw wedi'u nodi ar y ffurflen atgyfeirio
- Dim ond y diagnosis oedd wedi'i gofnodi ac nid oedd arwyddion wedi'u cofnodi
- Roedd gwybodaeth am hanes blaenorol wedi'i hanodi ar yr atgyfeiriad papur heb fanylion pwy oedd wedi cofnodi'r nodyn na phryd (dim enw na dyddiad).

Rhaid i'r cyflogwr gynnal archwiliad o'r cofnodion a phennu camau gweithredu dilynol er mwyn sicrhau bod y cofnodion atgyfeirio a thrin yn gyflawn.

Effeithlon

Effeithlon

Dywedodd uwch-aelodau o'r staff fod llwybrau gofal cleifion yn cael eu hadolygu'n barhaus fel rhan o'r broses ar gyfer gwella'r gwasanaeth a sicrhau effeithlonrwydd.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod mynediad y gwasanaeth radiotherapi at sganiau CT MRI a PET wedi cael ei ystyried fel rhan o gynlluniau ar gyfer dyfodol radioleg. Dylai hyn sicrhau mynediad effeithlon ac amserol i brosesau delweddu priodol i gleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Fel rhan o'n harolygiad, cynhaliwyd trafodaethau ag uwch-reolwyr y gwasanaeth, yn ogystal ag amrywiaeth o staff sy'n gweithio yn yr adran. At hynny, darparwyd arolwg staff er mwyn rhoi'r cyfle i bob aelod o'r staff sy'n gweithio yn yr adran gyfleu ei farn. Ymatebion cymysg a gafwyd drwy holiaduron AGIC. Er y byddai dros hanner y staff yn argymhell eu sefydliad fel lle i weithio, prin oedd y staff a oedd yn teimlo bod digon o staff yno iddynt allu gwneud eu gwaith yn iawn.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd lechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ymdrin â'r sylwadau llai ffafriol gan y staff a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

Cawsom nifer o sylwadau ar y gwasanaeth a dangosir rhai ohonynt isod:

“Mae fy rheolwr uniongyrchol ar gael ac yn barod i helpu os bydd gen i broblemau sy'n gysylltiedig â'm gwaith o ddydd i ddydd. Nid yw fy mhennaeth adran yn ymwybodol o'r anawsterau rydym yn eu hwynebu yn fy maes gwaith nac yn eu cydnabod hyd yn oed.”

“Cwblhawyd llawer o asesiadau risg dros y blynyddoedd mewn perthynas â'r heriau rydym yn eu hwynebu. Rydym yn teimlo eu bod wedi cael eu hanwybyddu a'u gwrthio i'r neilltu yn llwyr! Pan fyddwn ni'n rhoi cynnig ar newidiadau, prin iawn yw'r gefnogaeth a geir gan fy rheolwr. Yn hytrach, mae'n trio rhoi newidiadau ar waith mewn maes nad oes ganddo ddim dealltwriaeth ohono! Rydym wedi rhoi cynnig ar sawl ffordd o ddatrys y problemau niferus rydym yn eu hwynebu - rydym wedi cysylltu ag un o'r prif uwch-reolwyr, yr adran Adnoddau Dynol, yr adran lechyd Galwedigaethol ac hyd yn oed ein hundebau dros y blynyddoedd. Does dim parch tuag atom, does dim gwerthfawrogiad ac mae ein cymhelliant i weithio yn isel.”

“Caiff y gwaith o gynllunio radiotherapi ei gynnal gan ddau weithgor ar wahân a cheir anghysondeb mawr yn y ffordd y caiff y gwahanol grwpiau eu rheoli sy'n achosi cryn dipyn o ddrwgdeimlad a gwrthdaro yn y grŵp. Mae lefelau staffio a chymysgedd sgiliau amhriodol yn golygu ei bod hi'n anodd iawn cyrraedd y targedau o ran y llwyth gwaith a all effeithio ar ansawdd y gofal y mae'r cleifion yn ei gael. Mae'r staff wedi codi pryderon droeon dros y blynyddoedd, ond ni wnaed unrhyw newidiadau. Gallai trefniadau rheoli a chyfathrebu cliriach helpu i wella'r problemau rydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd.”

“Mae'r staff bob amser yn ceisio rhoi 100% i'r cleifion y maent yn gofalu amdanynt. Bydd y staff yn rhoi amser a chymorth i'r cleifion. Mae'r staff yn darparu amgylchedd cefnogol i'w cydweithwyr.”

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd yw'r cyflogwr dynodedig o dan y Rheoliadau. Yr unigolyn hwn sy'n meddu ar y cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau. Lle y bo'n briodol, roedd y cyflogwr wedi dirprwyo tasgau i weithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio yn y Bwrdd Iechyd roi'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ar waith.

Cyflwynodd uwch-aelodau o'r staff fanylion am strwythur y sefydliad. Cafodd llinellau adrodd a chyfrifoldebau clir o dan y Rheoliadau eu disgrifio a'u dangos. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod trefniadau interim ar waith ar gyfer rhai rolau arwain a dylid bwrw ati i recriwtio unigolion i'r rolau hyn ar sail barhaol.

Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r sefyllfa o ran swyddi arwain interim yn yr adran a datblygu cynllun effeithiol i sicrhau tîm arwain sefydlog ac effeithiol.

Cafodd y ffurflen hunanasesu a gwblhawyd gan yr adran cyn yr arolygiad ei chyflwyno o fewn yr amserlen y cytunwyd arni ac roedd yn gynhwysfawr. Cymerodd pob aelod o'r staff ran lawn yn y broses arolygu a dangosodd y rheolwyr ymrwymiad i weithredu ar ganfyddiadau arolygiad AGIC, gan wneud gwelliannau lle bo angen.

Edrychodd y tîm arolygu ar y systemau a'r dulliau a oedd ar waith er mwyn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer cyfathrebu â'r cyflogwr o dan y Rheoliadau. Er mwyn atgyfnerthu'r dulliau hyn ymhellach, **dylai'r adran radiotherapi ystyried cyflwyno adroddiad dadansoddi digwyddiadau radiotherapi i'r Pwyllgor Diogelu rhag Ymbelydredd er mwyn cyflwyno a rhannu gwersi i'w dysgu, yn ogystal â darparu dull cyfathrebu i'r cyflogwr.**

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff y trefniadau sydd ar waith i fonitro ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir yn yr adran ac i roi sicrwydd i'r Bwrdd Iechyd fel rhan o'r trefniadau llywodraethu a monitro. Dywedodd hanner y staff a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC (20/40) wrthym y byddent yn argymhell eu sefydliad fel lle da i weithio ynddo. Dywedodd gweddill y staff na fyddent yn ei argymhell. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a atebodd y cwestiwn (30/40) wrthym fod eu sefydliad yn gefnogol. Roedd y gweddill yn anghytuno â hyn.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd sawl disgyblaeth yn gweithio yn yr adran, gan gynnwys Oncolegwyr Clinigol, Cofrestryddion Oncoleg Glinigol, Radiograffwyr Ymgynghorol/Uwch-radiograffwyr Ymarfer, Radiograffwyr, Arbenigwyr Ffiseg Feddygol, Gwyddonwyr Clinigol, Dosimetryddion a Swyddogion Technegol Clinigol. Roedd yr adran yn darparu lleoliadau clinigol ar gyfer myfyrwyr Radiotherapi a Ffiseg Radiotherapi hefyd. Roedd yn amlwg bod y tîm o staff yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth da ac roeddent yn canolbwyntio ar y claf.

Nododd uwch-aelodau o'r staff fod rhai swyddi ar gyfer staff Radiotherapi wedi bod yn wag am gyfnod hir ar adeg yr arolygiad, a byddai angen recriwtio unigolion i'r swyddi hyn er mwyn bodloni argymhellion a wnaed gan gyrff proffesiynol perthnasol. Rhannodd yr uwch-arweinwyr eu cynlluniau â'r tîm arolygu.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant pedwar aelod o'r staff mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Nodwyd mai dim ond ar gyfer y Rheolau Lleol roedd cofnod o ddarlleniad blynyddol a gwnaethom awgrymu y dylid cynnwys dogfennaeth yr adran mewn perthynas â'r Rheoliadau yn y darlleniad blynyddol.

Gwelwyd y cofnodion hyfforddiant ar gyfer hyfforddiant Radiograffwyr mewn perthynas â'r Rheoliadau ac roeddent yn gynhwysfawr. Gwnaethom edrych hefyd ar ddata a oedd yn dangos bod y staff yn cydymffurfio â rhaglen hyfforddiant gorfodol y Bwrdd Iechyd. Roedd disgwyl i'r staff gwblhau hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rôl. Roedd y data yn dangos lefel dda o gydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ymhlith y staff.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i ymgymryd â'u rôl.

Nid oedd y dystiolaeth i ddangos cydymffurfiaeth â hyfforddiant cystal mewn rhai meysydd. Er enghraifft, ni welsom dystiolaeth o hyfforddiant diogelu rhag ymbelydredd yr adran yn dilyn y diwygiad diweddar i'r Rheoliadau wrth edrych ar gofnodion hyfforddiant Oncolegwyr Clinigol a Ffiseg Feddygol.

Dylai'r cyflogwr atgyfnerthu hyfforddiant diogelu rhag ymbelydredd lleol yn unol ag Atodlen 3 y Rheoliadau.

Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn fodlon ar eu rolau ac ar y cymorth roeddent yn ei gael gan eu timau.

Roedd yr ymatebion yn dangos ymdeimlad cryf o gydweithio ac ymroddiad ymhlith y staff.

Roedd y data a gawsom hefyd yn dangos bod y mwyafrif o'r staff wedi cael arfarniad o'u gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd poster i'w gweld yn amlwg yn yr adran yn nodi sut y gall cleifion roi adborth. Roeddent yn galluogi cleifion i roi adborth neu wneud cwyn. Hefyd, gwelsom fod llechen electronig ar gael yn y brif ardal aros i'r cleifion ei defnyddio i roi adborth. Roedd gwybodaeth wedi'i harddangos am sefydliadau eraill y gall cleifion gysylltu â nhw i gael help a chynghor ar wneud cwyn.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Adran Radiotherapi, Canolfan Trin Canser Gogledd Cymru

Dyddiad yr arolygiad: 28 a 29 Ionawr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch nac unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio					
2.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Adran Radiotherapi, Canolfan Trin Canser Gogledd Cymru

Dyddiad yr arolygiad: 28 a 29 Ionawr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Roedd llawer o'r cleifion yn teithio gryn bellter i ddod i'w hapwyntiadau radiotherapi, ac roedd trefnu llety dros nos i'r cleifion hyn yn heriol. Roedd y staff yn cydnabod y byddai teithio yn ôl ac ymlaen i'r adran ac oddi yno o bosibl yn atal cleifion rhag mynychu apwyntiadau radiotherapi.	Dylai'r cyflogwr adolygu a gwella'r prosesau sydd ar waith er mwyn sicrhau y caiff anghenion cleifion sy'n teithio ar gyfer apwyntiadau radiotherapi rheolaidd eu diwallu.	Safon - Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn	Argymhelliad y gallai cleifion sy'n bodloni meini prawf penodol fod yn gymwys i gael llety lleol am hyd at 25 noson, i'w gyllido drwy elusennau. Cytunwyd mewn egwyddor. Caiff y weithdrefn ei chyflwyno i'r uwch-dîm arwain ym mis Ebrill 2025 a'u rhaedru i staff y ganolfan ganser.	Rheolwr Cyffredinol Gwasanaethau Canser	Mai 2025

2.	Dim ond yn Saesneg roedd llythyrau apwyntiad i gleifion ar gael.	Mae'n ofynnol i'r Bwrdd lechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau y gall cleifion gael llythyrau yn eu dewis iaith.	Safon - Teg	Cyfieithu holl lythyrau apwyntiad sy'n cael eu defnyddio gan yr adran Radiotherapi ar hyn o bryd i Gymraeg ac anfon fersiynau Cymraeg a Saesneg.	Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	Medi 2025, ond bydd yn dibynnu ar y gwasanaethau cyfieithu
3.	Dogfennaeth yn yr adran - Roeddent yn dibynnu ar brosesau dynol i adolygu a diweddarau dogfennaeth ac i gyfleu unrhyw newidiadau a wnaed - Nid oedd dull rheoli dogfennau ffurfiol ar waith i reoli dogfennaeth a symleiddio prosesau	Rhaid i'r cyflogwr symleiddio'r system rheoli dogfennau bresennol a'r prosesau gweithredol cysylltiedig er mwyn atgyfnerthu'r broses o reoli dogfennau.	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) - Rheoliad 6(4)(b) ac Atodlen 2(k)	Trafod â chydweithwyr De Cymru. Cael dyfynbrisiau ar gyfer system rheoli dogfennau electronig e.e. iPASSPORT. Ar ôl cael y costau, holi ynghylch cyfleoedd cyllido gan elusennau. Yn y cyfamser, mae taenlen yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd i olrhain dyddiadau adolygu'r protocolau clinigol.	Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	Mai 2025 Rhagfyr 2025 Ebrill 2026 Mehefin 2025

	- Nid oedd pob un ohonynt wedi cael eu diweddarau i gydymffurfio â'r diwygiadau i'r Rheoliadau - Roeddent yn cynnwys gwybodaeth ddyblyg â manylion anghyson mewn rhai achosion.			Caiff y broses hon ei mabwysiadu ar gyfer y system rheoli ansawdd gyfan. Adolygu'r dogfennau a'u diweddarau er mwyn cydymffurfio â diwygiadau i'r Rheoliadau lle bo angen. Caiff hyn ei wneud cyn yr archwiliad allanol o'r system rheoli ansawdd y disgwylir iddo gael ei gynnal ym mis Hydref 2025.		Medi 2025
4.	Roedd llawer o'r tasgau ar hyd y llwybr cleifion yn cael eu cofnodi ar bapur ac ar ffurf electronig. Roedd hyn yn dyblygu ymdrechion ac yn creu amwysedd o ran data ffynhonnell sylfaenol fel rhan o gofnod y claf. Roedd cofnodion rhai o'r cleifion a welsom yn	Rhaid i'r cyflogwr adolygu a diweddarau prosesau a sicrhau y caiff cofnodion cleifion a gwybodaeth a diwygiadau i'w llwybr gofal eu llofnodi a'u dyddio a'u bod yn glir.	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) - Rheoliad 6(4)(b) ac Atodlen 2(k)	Atgoffwyd y staff y dylid llofnodi a dyddio unrhyw ddogfennaeth yn ystod y cyfarfod staff misol a thrwy e-bost. Mae archwiliad o'r llwybr cleifion wedi'i drefnu ar gyfer mis Mehefin 2025, a chaiff y mater hwn ei	Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	Wedi'i gwblhau 13/03/25 Mehefin 2025

	cynnwys diwygiadau a gwelliannau nad oeddent bob amser wedi'u llofnodi a'u dyddio.			gynnwys fel rhan o'r archwiliad hwn. Rydym yn treialu'r broses o ddefnyddio llwybr gofal electronig yn yr adran, er bod rhywfaint o gofnodion papur dyblyg yn cael eu defnyddio o hyd yn ystod y cyfnod pontio.	Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi a'r Pennaeth Ffiseg Radiotherapi	Ebrill 2026
5.	Daeth y ddogfennaeth gontract a welsom i ben yn 2020 ac mae angen ei diweddarau	Rhaid i'r cyflogwr adolygu a diweddarau'r contract a'r ddogfennaeth gyfatebol am driniaethau i adlewyrchu'r gofyniad i rannu gwybodaeth am ddosau radiotherapi a bracitherapi priodol ac i sicrhau bod y wybodaeth honno ar gael rhwng cyflogwyr. Dylid hefyd rhannu protocolau clinigol rhwng safleoedd er mwyn sicrhau bod y ddau	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) - Rheoliad 6A(2)	Mae'r contract wedi'i lofnodi (Ebrill 24-25) rhwng BIPBC a'r cyflogwr arall ar gael. Rhannwyd y protocol clinigol â'r cyflogwr arall drwy e-bost. Caiff y weithdrefn bracitherapi bresennol ei	Rheolwr Cyffredinol Gwasanaethau Canser Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	Wedi'i gwblhau 24/3/25 Wedi'i gwblhau 24/3/25

		wasanaeth yn gydnaws ac yn adlewyrchu ei gilydd.		hatgyfnerthu i gynnwys y diwygiadau i'r Rheoliadau. Ar ôl ei chwblhau, gall y ddau barti ei chymeradwyo.		Gorffennaf 2025 Medi 2025
6.	Nododd yr adolygiad o gofnodion y cleifion yn ystod yr arolygiad, yr archwiliad diweddar o brosesau atgyfeirio o dan y Rheoliadau (2023) a thrafodaethau â'r staff y risgiau canlynol: - Dynodyddion cleifion yn cael eu darparu mewn modd anghyson - Atgyfeiriadau anghyflawn â gwybodaeth	Dylai'r cyflogwr ystyried mabwysiadu system atgyfeirio electronig gan gynnwys meysydd gorfodol a manylion mewngofnodi penodol i ddefnyddwyr er mwyn lliniaru'r risgiau a nodwyd. Yn y cyfamser, argymhellir y dylid cynnwys atgyfeiriadau anghyflawn yn y system leol ar gyfer dysgu o ddigwyddiadau, er mwyn monitro tueddiadau a helpu i nodi camau gwella.	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) - Atodlen 2(k) Rheoliad 8(3)(a) a (b)	Atgoffa atgyfeirwyr drwy e-bost i gwblhau'r ceisiadau yn llawn. Tynnir sylw'r atgyfeiriwr at atgyfeiriadau anghyflawn a chaiff taenlen ei chreu er	Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	Ebrill 2025

	orfodol fel statws beichiogrwydd ar goll - Y defnydd o rifau ysbyty gwahanol (gan adlewyrchu systemau'r tri ysbyty sy'n atgyfeirio) - Oedi wrth atgyfeirio gan fod proses ddynol o anfon atgyfeiriad ar bapur o'r clinigau allanol.			mwyn olrhain themâu. Atgoffwyd pob atgyfeiriwr i'r adran Radiotherapi y dylid defnyddio rhif y GIG fel dynodydd unigryw (drwy e-bost) Wedi'i gynnwys hefyd yn y llythyr Hawl i Atgyfeirio ar gyfer Radiotherapi blyneddol. Rydym yn ystyried datrysiad atgyfeirio electronig. Mae canolfannau De Cymru eisoes wedi dechrau'r broses hon yn y ffordd y byddem yn debygol o'i mabwysiadu. Byddwn yn gofyn am gyngor	Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi Meddyg Ymgynghorol Arweiniol Clinigol Radiotherapi Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	Wedi'i gwblhau 23/3/25 Ebrill 2025 Ebrill 2026
--	---	--	--	---	---	---

				ganddynt yn seiliedig ar eu profiad.		
7.	Mae angen atgyfnerthu'r cofnodion rhoi hawliau ar gyfer rôl deiliad dyletswydd y gweithredwr ar gyfer staff meddygol a staff ffiseg feddygol. Nodwyd gennym fod angen atgyfnerthu'r ddogfennaeth a oedd yn dangos tystiolaeth o hyfforddiant a chymhwysedd y staff meddygol a'r staff ffiseg feddygol hefyd	Rhaid i'r cyflogwr - Atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer hyfforddi ac asesu cymwyseddau staff meddygol a staff ffiseg feddygol - Atgyfnerthu'r broses o gofnodi addysg a hyfforddiant parhaus ar ôl cymhwyso - Adolygu a diweddarau hawliau gweithredwyr ar gyfer staff meddygol ac ar gyfer yr holl grwpiau staff ym maes ffiseg feddygol.	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) - Rheoliad 6(3)(a)(b) Atodlen 2(b)	Bydd staff meddygol a staff ffiseg radiotherapi yn mabwysiadu argymhellion canllawiau'r Bwrdd Radiotherapi RCR /IPEM ar gyfer llunio cofnodion hyfforddiant.	Meddyg Ymgynghorol Arweiniol Clinigol Radiotherapi Pennaeth Ffiseg Radiotherapi	Ebrill 2026 er mwyn gallu cwblhau'r holl adolygiadau blynyddol
8.	Nid oedd y weithdrefn a welsom yn cynnwys camau gweithredu ar	Dylai'r cyflogwr adolygu a diweddarau'r weithdrefn ar gyfer holi ynghylch statws	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) - Rheoliad 11(3)(d)(i)	Mae'r ddogfennaeth ar gyfer achosion lle cafodd beichiogrwydd	Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	Wedi'i gwblhau 20/3/25

	gyfer achosion lle roedd beichiogrwydd wedi'i gadarnhau ac roedd cyfiawnhad dros y cysylltiad	beichiogrwydd er mwyn cynnwys y camau gweithredu i'w cymryd pan fydd unigolyn wedi cadarnhau ei bod yn feichiog ac y caiff y cysylltiad ei gyfiawnhau yn dilyn hynny.		ei gadarnhau wedi cael ei hadolygu a'i hatgyfnerthu. Cafodd adran am gysylltiadau anfwriadol mewn perthynas â chlaf beichiog ei chynnwys.		
9.	Roedd y weithdrefn gwerthusiadau clinigol a welsom yn cynnwys rhywfaint o derminoleg amwys	Dylai'r cyflogwr adolygu a diweddarau dogfennaeth yr adran sy'n cyfeirio at werthusiadau clinigol er mwyn dileu terminoleg amwys.	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) - Rheoliad 12(9) ac Atodlen 2 (j)	Cafodd y ddogfennaeth ei hadolygu a chafodd y derminoleg amwys ei dileu.	Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	Wedi'i gwblhau 20/3/25
10.	Gwnaethom adolygu'r archwiliadau clinigol a'r archwiliadau o dan y Rheoliadau a daethom i'r casgliad y gellid eu hatgyfnerthu	Dylai'r cyflogwr ystyried atgyfnerthu'r broses ar gyfer archwiliadau clinigol ac archwiliadau o dan y Rheoliadau drwy ymdrin â'r meysydd canlynol i'w gwella: Rhoi rhaglen flynyddol o archwiliadau clinigol	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) - Rheoliad 7	Mae dogfennaeth safonol eisoes yn cael ei defnyddio ar gyfer archwiliadau o'r system Rheoli Ansawdd. Dylid ei defnyddio hefyd ar gyfer archwiliadau clinigol ac archwiliadau o dan y Rheoliadau. Cafodd y	Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	Wedi'i gwblhau 24/3/25

		amlddisgyblaethol ar waith • Defnyddio dogfennaeth archwilio safonol mewn ffordd gyson • Nodi meysydd i'w gwella yn glir • Datblygu cynllun gweithredu cyfatebol lle bo angen • Cyfleu'r canlyniadau a chynnal archwiliad arall lle bo angen • Adolygu a diweddarau'r weithdrefn archwiliadau clinigol i adlewyrchu newidiadau i'r broses.		staff eu hysbysu o hyn drwy e-bost. Ychwanegwyd adran ychwanegol at y ffurflen bresennol er mwyn gallu cyfleu'r canlyniadau a'r broses o ddatblygu cynllun gweithredu. Caiff amserlen ei llunio yn ystod y cyfarfod goruchwyllo radiotherapi nesaf. Wedyn caiff cyfarfod archwilio chwarterol ei drefnu er mwyn rhannu a thrafod archwiliadau. Diweddarau'r weithdrefn ar gyfer archwiliadau clinigol er mwyn cynnwys gofynion Atodlen 2 (o) y Rheoliadau.	Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi, Pennaeth Ffiseg Radiotherapi, Meddyg Ymgynghorol Arweiniol Clinigol Radiotherapi, Arweinydd Archwilio Clinigol RCR yr Adran	Mai 2025 Yn dechrau Medi 2025 Ebrill 2025
--	--	---	--	--	---	--

11.	Ar ôl trafod cysylltiad damweiniol neu anfwriadol arwyddocaol diweddar y rhoddwyd gwybod i AGIC amdano, daethpwyd i'r casgliad y byddai'r trefniadau i gynnal mwy o adolygiadau gan gymheiriaid ar draws pob safle yn helpu i liniaru'r risg o unrhyw wallau amlinellu yn y dyfodol	Rhaid i'r cyflogwr ddiweddarau ei gamau gweithredu gan lunio cynllun i sicrhau'r canlynol: • Caiff trefniadau ar gyfer adolygiadau gan gymheiriaid eu rhoi ar waith ar draws pob safle • Caiff y meini prawf atgyfeirio yn y protocolau clinigol eu hehangu i gynnwys ymchwiliadau hanfodol e.e. adroddiad histoleg, archwiliad corfforol a delweddu diagnostig (delweddau ac adroddiadau).	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) - Rheoliad 12(2) ac Atodlen 2(k)	Bydd y gwasanaeth yn rhoi canllawiau presennol RCR ar waith: Diffiniad o feintiau targed radiotherapi ac adolygiadau gan gymheiriaid, ail argraffiad 2022 ac adolygu pob cynllun swydd. Diweddarau'r meini prawf atgyfeirio ar ddyddiad adolygu'r protocol. Croesgyfeirio'r dyddiadau a gofnodwyd ar gyfer adolygu'r protocol ac ymdrin ag unrhyw enghreifftiau heb eu hadolygu a chytuno ar gynllun cwblhau realistig er mwyn sicrhau y caiff diweddariadau eu	Meddyg Ymgynghorol Arweiniol Clinigol Radiotherapi Meddyg Ymgynghorol Arweiniol Clinigol Radiotherapi	Ebrill 2026 er mwyn gallu cwblhau'r holl adolygiadau o gynlluniau swydd. Mai 2025
-----	--	---	--	---	---	---

				rhoi ar waith ar gyfer pob safle afiechyd.		
12.	Edrychwyd ar y gweithdrefnau a'r protocolau ysgrifenedig lleol sydd ar waith sy'n disgrifio'r broses ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi pob cysylltiad. Nodwyd rhywfaint o amwysedd ac anghysondebau yn y ddogfennaeth ategol.	Dylid adolygu'r ddogfennaeth sy'n nodi manylion y broses ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi cysylltiadau delweddu gwirio cydredol er mwyn sicrhau bod y broses hon yn cael ei disgrifio mewn ffordd glir a chyson.	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) - Rheoliad 11(1)(b-c) ac 11(2)	Cafodd y ddogfennaeth ei hadolygu a chafodd y derminoleg amwys ei dileu.	Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	Wedi'i gwblhau 20/3/25
13.	Roedd trefniadau cydweithio parhaus ar waith ar gyfer optimeiddio dosau delweddau CBCT	Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddatblygu'r trefniadau ar gyfer optimeiddio dosau delweddu gwirio CBCT.	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) - Rheoliad 12(3)	Cafwyd gosodiadau CBCT gan y cyflogwyr eraill a chaiff y gosodiadau a ddewiswyd bellach eu hadolygu a'u rhoi ar waith.	Pennaeth Ffiseg Radiotherapi	Gorffennaf 2025
14.	Roedd dau LINAC a oedd yn 14 oed, mae un ohonynt yn cael ei ddefnyddio at	Dylai'r cyflogwr gynnal asesiad risg ar gyfer y Cyflymydd Llinol (a osodwyd yn 2010), a defnyddio'r asesiad risg hwn i lywio'r	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) - Rheoliad 15(6)(a), (b) a (c)	Mae asesiad risg ar waith ar y gofrestr risgiau. Mae pob LINAC wedi'i gynnwys ar restr rheoli	Pennaeth Ffiseg Radiotherapi	Mehefin 2026

	ddibenion clinigol o hyd.	cofnod presennol ar y gofrestr risgiau. Rhaid cytuno ar feini prawf perfformiad derbyniol a therfynau amser pendant ar gyfer parhau i ddefnyddio'r cyfarpar at ddibenion clinigol a'u cofnodi.		ansawdd er mwyn dangos ei fod yn parhau i fodloni'r manylebau o'r adeg gosod i'r defnydd olaf. Mae achos busnes wrthi'n cael ei ddatblygu er mwyn cael peiriant newydd yn lle'r peiriant a grybwyllwyd, a disgwylir y bydd y peiriant newydd yn cael ei defnyddio at ddibenion clinigol yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 26-27.		
15.	Roedd taenlen fewnol yn cael ei defnyddio i gynnal cyfrifiadau â llaw ar gyfer triniaethau wedi'u cynllunio drwy efelychiadau rhithwir. Roedd risgiau yn	Dylai'r cyflogwr sicrhau y caiff y prosesau presennol ar gyfer cynllunio triniaethau syml neu liniarol a thriniaethau 'FSD estynedig' eu hadolygu a'u hatgyfnerthu	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) - Rheoliad 12(3)	Mae gwaith yn mynd rhagddo i symud o'r drefn o gynnal cyfrifiadau â llaw ar gyfer cynllunio triniaethau drwy efelychiadau rhithwir ac i ddefnyddio'r	Pennaeth Ffiseg Radiotherapi	Ionawr 2026

	gysylltiedig â defnyddio taenlen fewnol at y diben hwn.			system cynllunio triniaethau a'r cyfrifiad dosau eilaidd a ddefnyddir ar gyfer triniaethau "wedi'u cynllunio". Mae'r gwaith hwn yn cynnwys adolygu'r triniaethau FSD estynedig presennol.		
16.	Cadarnhaodd adborth gan y staff nad yw'r aelodau hynny o staff sy'n gysylltiedig ag ymchwiliadau yn cael gwybod am y camau gweithredu sy'n deillio ohonynt fel mater o drefn.	Dylid adolygu prosesau a'u hatgyfnerthu er mwyn sicrhau y caiff aelodau o staff eu cynnwys yn yr ymchwiliad, ac y cânt adborth priodol i esbonio pam bod sefydliad allanol wedi cael gwybod am y digwyddiad yn ogystal â'r camau gweithredu dilynol a gymerwyd.	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) - Rheoliad 8(2)	Mae'r memo sicrhau ansawdd misol yn cynnwys manylion am bob digwyddiad a chaiff ei anfon drwy e-bost at bob aelod o'r staff. Caiff unrhyw ddigwyddiadau y bu'n rhaid rhoi gwybod i sefydliad allanol amdanynt hefyd eu trafod yn ystod y cyfarfodydd staff misol.	Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi, Pennaeth Ffiseg Radiotherapi, Meddyg Ymgynghorol Arweiniol Clinigol Radiotherapi	Wedi'i gwblhau. Caiff memos sicrhau ansawdd eu hanfon bob mis. Caiff cyfarfodydd staff eu cynnal bob mis

17.	Nid oedd astudiaeth risg yr adran yn cynnwys cynllun gweithredu i fonitro camau gweithredu nac i gofnodi cynnydd.	Dylai'r cyflogwr gynnwys cynllun gweithredu fel rhan o astudiaeth risg yr adran er mwyn monitro a chofnodi cynnydd y camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r astudiaeth.	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) - Rheoliad 8(2)	Caiff cynllun gweithredu ei gynnwys yn astudiaeth risg yr adran.	Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	Mai 2025
18.	Roedd y cyfarfodydd digwyddiadau amlddisgyblaethol a oedd yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn wedi dirwyn i ben.	Dylai'r cyflogwr ailddechrau cynnal cyfarfodydd dadansoddi digwyddiadau amlddisgyblaethol rheolaidd. Dylai'r cyfarfodydd hyn gael eu hategu gan adroddiad dadansoddi digwyddiadau, a chynllun gweithredu dilynol i gofnodi a monitro'r camau gweithredu a nodwyd i ymdrin â'r meysydd i'w gwella.	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) - Rheoliad 8(3) (a) a (b)	Caiff y cyfarfod digwyddiadau ddwywaith y flwyddyn ei ailddechrau. Lluniwyd adroddiadau dadansoddi digwyddiadau bob 6 mis a bob blwyddyn eisoes. Mae'r cyfarfod cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer 2/4/2025, ac yn dilyn y cyfarfod hwn, caiff cynllun gweithredu ei lunio i gofnodi a monitro unrhyw welliannau a nodwyd.	Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	Ebrill 2025

				Caiff tueddiadau digwyddiadau hefyd eu hadolygu ddwywaith y flwyddyn yn ystod cyfarfodydd lleol a chyffredinol y Pwyllgor Diogelu rhag Ymbelydredd		
19.	Nid oedd pob cofnod a welsom yn gyflawn.	Rhaid i'r cyflogwr gynnal archwiliad o'r cofnodion a phennu camau gweithredu dilynol er mwyn sicrhau bod y cofnodion atgyfeirio a thrin yn gyflawn.	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) - Rheoliad 7	Cafodd archwiliad o'r cofnodion ei gynnwys yn yr amserlen archwiliadau ar gyfer y system rheoli ansawdd. Bwriedir ei gynnal ym mis Gorffennaf 2025, ac yn dilyn hynny, caiff unrhyw feysydd i'w gwella eu nodi a'u rhoi ar waith.	Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	Awst 2025
20.	Rhannwyd rhai o sylwadau'r staff ag arweinwyr yr adran	Mae'n ofynnol i'r Bwrdd lechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ymdrin â'r sylwadau llai ffafriol gan y staff a	Safon - Y Gweithlu	Caiff y trefniadau ar gyfer ymgysylltu â'r staff eu monitro drwy ddadansoddi arolwg staff blynyddol y GIG.	Rheolwr Cyffredinol Gwasanaethau Canser	Caiff cynllun gweithredu ei lunio erbyn mis Ebrill

		ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.		Ar gyfer gwasanaethau canser, er ei fod yn dangos gwelliant cyffredinol rhwng 2023 a 2024, mae'r mynegai ymgysylltu â'r staff ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer staff GIG Cymru. Mae cynllun gweithredu wrthi'n cael ei ddatblygu i wneud gwelliannau pellach a bydd ar waith erbyn mis Ebrill 2025.		2025 a'i roi ar waith
21.	Swyddi interim oedd rhai o'r swyddi allweddol yn yr adran.	Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu'r sefyllfa o ran swyddi arwain interim yn yr adran a datblygu cynllun effeithiol i sicrhau tîm arwain sefydlog ac effeithiol.	Safon - Arweinyddiaeth	Caiff swydd y Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi ei hysbysebu eto ym mis Ebrill/Mai 2025.	Rheolwr Cyffredinol Gwasanaethau Canser	Mai 2025

22.	Nid oedd bob amser yn glir sut roedd y cyflogwr yn cael gwybod am waith dadansoddi digwyddiadau a themâu.	Dylai'r adran radiotherapi ystyried cyflwyno adroddiad dadansoddi digwyddiadau radiotherapi i'r Pwyllgor Diogelu rhag Ymbelydredd er mwyn cyflwyno a rhannu gwersi i'w dysgu, yn ogystal â darparu dull cyfathrebu i'r cyflogwr.	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) - Rheoliad 8(3)(a) a (b)	Caiff cyfarfod y Pwyllgor Diogelu rhag Ymbelydredd lleol ei gynnal ddwywaith y flwyddyn ac ar hyn o bryd, caiff gwybodaeth am ddigwyddiadau radiotherapi ei rhannu yn y cyfarfodydd hyn. Wedyn gellir uwchgyfeirio gwybodaeth i'r Pwyllgor Diogelu rhag Ymbelydredd cyffredinol os bydd angen. Caiff adroddiad digwyddiadau Datix misol ei lunio gan dîm rheoli risg Unwaith i Gymru. Mae eitem sefydlog ar agenda'r cyfarfod goruchwyllo radiotherapi misol o dan ansawdd.	Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi	Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Mehefin 2025
-----	---	--	---	---	-----------------------------------	---

23.	Nid oedd tystiolaeth dda i ddangos cydymffurfiaeth â hyfforddiant mewn rhai meysydd.	Dylai'r cyflogwr atgyfnerthu'r hyfforddiant diogelu rhag ymbelydredd lleol.	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) - Atodlen 3.	Mae'r cofnod o'r darlleniad blynyddol wedi'i ehangu i gynnwys pob aelod perthnasol o'r staff ac yn ogystal â'r Rheolau Lleol, bydd yn cynnwys dogfennaeth yr adran mewn perthynas â'r Rheoliadau. Caiff diweddariadau staff o dan y Rheoliadau eu cynnal unwaith bob rhyw 3 blynedd.	Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi Meddyg Ymgynghorol Arweiniol Clinigol Radiotherapi Pennaeth Ffiseg Radiotherapi	Gorffennaf 2025

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Vicki Wilson

Swydd: Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi Interim

Dyddiad: 24/3/2025

